

13/07/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn yn gyntaf, longyfarch ein disgyblion am eu hymateb dros yr wythnosau diwethaf yn ystod y cyfnod o ail agor ym Mryn Tawe. Mae eu hymdrechion a'u hagwedd at ddysgu, wrth gyfrannu'n bositif iawn at gynnal ethos diogel, yn ganmoladwy iawn.

Ar ddiwedd blwyddyn anarferol a digynsail, hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth lawn i ni fel ysgol. Ein bwriad bob tro yw darparu cyfloedd dysgu o'r ansawdd uchaf yn ogystal â'r gofal gorau i bob un o'n disgyblion ac mae cydweithio gyda chi, ein rhieni yn allweddol at y pwrpas yma.

Yn yr un modd, hoffwn ddiolch yn gyhoeddus i holl staff yr ysgol sydd wedi parhau i weithio'n ddifflino ers i ni gau ar yr 20fed o Fawrth. Rwyf o hyd wedi teimlo'n berson breintiedig yn gweithio gyda staff yr ysgol, ond mae'r cyfnod yma wedi amlygu hyn fwy fyth. Mae parodrwydd y staff i ymateb i unrhyw gais er lles ein disgyblion a chymuned yr ysgol wedi bod yn anhygoel.

Yn flynyddol rydym yn gweld rhai newidiadau i staff yr ysgol ac hoffwn ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau arbennig at fywyd yr ysgol. Mae Mr Rhys Underdown, un o gyn ddisgyblion Bryn Tawe a Mr Gruffudd Jenkins yn ein gadael i ddilyn llwybrau gyrfa newydd ac rydym yn dymuno'n dda iawn i'r ddau. Diolch i Miss Rachel Jeffries sydd wedi cyfrannu'n werthfawr at yr adrannau Dyniaethau dros y flwyddyn, gyda'n dymuniadau gorau hefyd i'r dyfodol. Mae cyfraniad Mr Phil Higginson i'r adran Saesneg dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn amheuthun ac rydym yn dymuno'n dda iawn iddo yn ei swydd newydd yn Ysgol y Preseli. Mae tri aelod o staff sydd wedi bod ym Mryn Tawe dros 40 o flynyddoedd ar y cyd hefyd yn gadael, felly bydd bwlch amlwg ar eu hôl. Mae ein diolch i'r tri yn fawr iawn am eu cyfraniad gwych at fywydau disgyblion Bryn Tawe dros gyfnod estynedig. Dymuniadau gorau i Mrs Shan Davies sydd yn dechrau ar yrfa newydd fel tylinwr chwaraeon; i Mr Rhun Llwyd sydd yn symud i weithio yn ysgol Bro Teifi yn Llandysul ac i Mrs Rhian Thomas sydd yn ymddeol ar ddiwedd gyrfa dysgu ddisglair iawn. Diolch i bob un ohonoch a bu'n bleser cydweithio gyda chi.

Gyda diwedd y tymor yn nesáu yn gyflym iawn ac yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog wythnos ddiwethaf, hoffwn rannu trefniadau gyda chi ar gyfer dychwelyd ym mis Medi. Dyma fydd y drefn ar gyfer yr bythefnos gyntaf:

**Mawrth y 01/09/20:** diwrnod **cynllunio a pharatoi** i staff yr ysgol (ar gau i bob disgybl)

**Mercher 02/09/20:** diwrnod **cynllunio a pharatoi** i staff yr ysgol (ar gau i bob disgybl)

**Iau 03/09/20:** disgyblion blwyddyn **7, 12 a 13eg** yn unig (ar gau i ddisgyblion bl. 8, 9, 10 ac 11)

**Gwener 04/09/20:** disgyblion blwyddyn **7, 12 a 13eg** yn unig (ar gau i ddisgyblion bl. 8, 9, 10 ac 11)

**Llun 07/09/20:** disgyblion blwyddyn **7, 10, 11, 12 a 13 yn unig** (ar gau i ddisgyblion bl. 8 a 9)

**Mawrth 08/09/20:** disgyblion blwyddyn **7, 10, 11, 12 a 13 yn unig** (ar gau i ddisgyblion bl. 8 a 9)

**Mercher 09/09/20:** **pob disgybl yn dychwelyd yn llawn amser i'r ysgol.**

Rydym yn disgwyl i bob un o'n disgyblion i ddychwelyd o'r 9fed o Fedi, oni bai bod rheswm meddygol yn nodi i'r gwrthwyneb. Rhaid i **bob rhiant, sydd ddim wedi gwneud**, i lenwi'r 'Cytundeb Iechyd a Diogelwch' [yma](#) cyn bod eich plentyn yn gallu dychwelyd ym mis Medi.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)

[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR**  
**MEWN POBL**

Aur



Byddwn yn rhedeg amserlen lawn, ond byddwn yn **parhau i ddilyn y mesurau diogelwch** ac yn parhau i weithredu ar y cyngor iechyd rydym yn ei dderbyn gan y llywodraeth a'r ALI. Bydd disgwyl i bob disgybl olchi ei ddwylo neu i ddiheintio ar ôl cyrraedd, cyn egwyl, cyn bwyta ac wrth symud o un dosbarth i'r llall (pan fydd hyn yn digwydd) a chyn gadael; byddwn yn gweithredu 'grwpiau cyswllt' o ryw 30 ym mlynnyddoedd 7-9; byddwn yn gwneud pob ymdrech hefyd i gynnal grwpiau cyswllt gyda disgyblion TGAU a Safon Uwch, gan hefyd geisio darparu profiadau dysgu gwerthfawr, wedi eu targedu at allu pob disgybl, gan arbenigwyr pynciol i'r grwpiau arholiad yma. Rydym yn disgwyl i ddisgyblion wneud ymdrech i gynnal pellter cymdeithasol wrth deithio o gwmpas yr adeilad ac i ddilyn y system unffordd ar bob adeg; bydd disgwyl i ddisgyblion ddiheintio eu desgiau gweithio cyn ac ar ôl pob gwers. Byddwn yn eich atgoffa chi a'r disgyblion o'r trefniadau manwl yma cyn iddynt ddychwelyd ym mis Medi.

Rydym yn ystyried **gorffen gwersi felly am 14:45 er mwyn dechrau rhyddhau disgyblion** yn gynt er mwyn darwahanu'r disgyblion wrth adael. Byddwn yn cadarnhau trefniadau pendant y diwrnod ysgol erbyn diwedd Awst.

**Ni fydd cinio ysgol i ddisgyblion am y bythefnos cyntaf (rhwng y 3ydd – 11eg o Fedi)** a bydd disgwyl i bob disgybl ddod â phhecyn bwyd. **Mi fyddwn yn darparu bwyd yn yr ysgol o'r 14eg o Fedi Medi** ond bydd croeso i ddisgyblion i ddod â bwyd eu hunain yn ddyddiol. Byddwn yn torri'r amser ar gyfer egwyl bore i 15 munud ond ni fydd darpariaeth bwyd yn y ffreutur dros egwyl. Bydd angen i ddisgyblion ddod â byrbrydau iachus os ydynt yn dymuno ar gyfer amser egwyl. Bydd cinio yn cael ei dorri i 25 munud, felly bydd dod a bwyd eu hunain yn fanteisiol i ddisgyblion yn ystod y cyfnod yma. Byddwn yn darparu bwyd i ddisgyblion sydd yn deilwng i brydau ysgol am ddim. Bydd disgyblion yn derbyn cyfle i gael awyr iach yn ystod y dydd.

Ym mis Medi, rydym yn **disgwyl i ddisgyblion wisgo eu gwisg ysgol arferol**. Cofiwch am y wisg newydd ([gweler y llythyr yma](#)) sydd ar werth gan gwmni Bergoni. Fel nodir yn y llythyr, mae caniatâd gan ein disgyblion i wisgo eu gwisg bresennol yn ystod 12 mis y cyfnod trosglwyddo hyd at Fedi 2021.

Bydd **cludiant ysgol** ar gael i ddisgyblion, ond yn naturiol oherwydd y risg o COFID-19, byddai'n fuddiol pe bai rhieni sydd yn gallu cludo eu plant i'r ysgol, yn gwneud hynny. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau cludiant llawn erbyn diwedd mis Awst gan ein bod yn aros am ganllawiau pellach. **Ni fydd modd i ddisgyblion gael mynediad i'r safle cyn 08:15, os ydynt yn cerdded neu yn derbyn liff.** Gofynnwn i **rieni beidio â gollwng eu plant yn yr ysgol cyn 08:15**. Byddwn yn rhannu ein cynlluniau pendant ar gyfer gollwng a chasglu ar ddechrau Medi.

Rwy'n siŵr y bydd nifer o gwestiynau pellach gennych ac os oes, plis cysylltwch gyda ni ar y cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio'r ysgol. Diolch eto i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd digynsail yma ac edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn yn ôl ym mis Medi.

Yn ddiffuant,

*Simon Davies*



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODD WYR  
MEWN POBL**

Aur

